

Cystadleuaeth Gosod Blodau

Testun – ‘Llwybrau’

Gwobr: Tlws Merched y Wawr

Rheolau

1. Man arddangos – tua 2’6” (lled) x 2’3” (dyfnder) (unrhyw uchder)
2. Un aelod yn unig i osod y blodau, ond caniateir **dwy** ymgais o bob rhanbarth.
3. Rhaid gosod yr arddangosfa yn ystod y Sul cyn y sioe, neu cyn 7.00 o’r gloch fore Llun y Sioe. Dylid clirio’r arddangosfa rhwng 5.00 a 6.00 o’r gloch ar ddiwrnod olaf y Sioe.
4. Ni fydd Merched y Wawr yn gyfrifol am unrhyw eitem o’r arddangosfa yn ystod cyfnod y Sioe.
5. Bydd y beirniadaethau yn cael eu cyfieithu prynhawn Llun gan gynrychiolydd o’r mudiad.
6. Gweler llyfr Merched y Wawr – Rheolau NAFAS am reolau gosod blodau ar gyfer y gystadleuaeth.
7. Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol. Dylid cyflwyno unrhyw gŵyn cyn 6.00 o’r gloch nos Lun y Sioe a hynny yn ysgrifenedig wedi ei **lofnodi** a thâl o £25 i Brif Stiward Cystadleuaeth Merched y Wawr.
8. Tâl Cystadlu i’w anfon i’r Ganolfan Genedlaethol erbyn 7 Mai 2019.

Mi fydd y seremoni wobrwyo yn cael ei chynnal a r ddiwedd prynhawn lau yn Neuadd Morgannwg.

Ffurflenni cystadlu ar ran y rhanbarth i’w dychwelyd erbyn 7 Mai 2019 i’r Ganolfan Genedlaethol

Cystadlaethau Sioe Llanelwedd 2019



*Cynnyrch a Gwaith Llaw
Garddwriaeth
22 – 25 Gorffennaf 2019*

**Cynhelir y Seremoni Wobrwyo
ar ddiwedd prynhawn lau**

**Ffurflenni cystadlu ar ran y rhanbarth
i’w dychwelyd i Ganolfan Genedlaethol
Merched y Wawr erbyn 7 Mai 2019**

Cystadleuaeth Cwpan Radi Thomas 2019

Pum eitem i'w beirniadu'n unigol

Thema - 'Yr Arfordir'

(Pum eitem ar gyfer cystadleuaeth Radi Thomas)

Crefft:

- (i) Ffotograffiaeth lliw wedi fframio, dim maint penodol
- (ii) Trefniant o flodau modern
- (iii) Gwau cap a sgarff ar gyfer mynd i gerdded
- (iv) Mosaic

Coginio:

Torth o fara gan ddefnyddio burum, ac unrhyw siâp

Y Babel Flodau

Thema: 'Llwybrau'

RHEOLAU

1. Rhoddir marciau am y pum eitem yn unig. Ni fydd marciau am lwyfannu na dehongli.
2. I'w harddangos ar fwrdd hir gyda sgrin sydd tua 1 metr o uchder fel cefndir. Bydd gofod o tua 1 metr sgwâr i bob rhanbarth o flaen y sgrin i arddangos yr eitemau. Os dymunir gellir defnyddio'r cefndir i hongian llun neu eitem arall arno.
3. Darperir ffedog ddu ar flaen bob bwrdd.
4. Ni ddylai unrhyw eitem o'r arddangosfa fod wedi ei arddangos yn y Sioe o'r blaen.
5. Rhaid i bob eitem fod yn waith gan aelod o'r Rhanbarth
6. Pum aelod yn unig a ganiateir i osod yr arddangosfa, gyda dwy aelod yn derbyn 'pass' mynediad.
7. Rhaid i'r gwaith gael ei osod rhwng 2.00 o'r gloch y prynhawn a 6.00 o'r gloch yr hwyr ddydd Sul neu rhwng 7.00 a 8.00 o'r gloch fore Llun y Sioe. Dylid clirio'r arddangosfa rhwng 5.30 a 7.00 o'r gloch ar ddiwrnod olaf y Sioe.
8. Cyhoeddir y marciau a'r sefyllfaoedd erbyn 1.00 o'r gloch brynhawn Llun.
9. Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol.
10. Bydd cyfle i'r cystadleuwyr gyfarfod y beirniad i drafod y gystadleuaeth am 2.00 o'r gloch brynhawn Llun.
11. Dylid cyflwyno unrhyw gŵyn cyn 2.00 o'r gloch brynhawn Llun y Sioe a hynny yn ysgrifenedig, wedi ei lofnodi a gyda thâl o £25 i Brif Stiward Cystadleuaeth Merched y Wawr.
12. Bydd hawl i'r cystadleuwyr ddechrewyd at eu harddangosfeydd ar ôl y beirniadu i sicrhau bod yr eitemau a feirniadwyd wedi eu hail osod yn y lle priodol.
13. Gofynnir i gynrychiolydd o'r Rhanbarth buddugol fod yn bresennol adeg cyflwyno'r cwpan dydd Iau am 4.30.
14. Ni fydd Merched y Wawr yn gyfrifol am unrhyw eitem o'r arddangosfa yn ystod cyfnod y Sioe.
15. Rhaid anfon y tâl cystadlu i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol erbyn **7 Mai 2019.**